

HYFFORDDIANT AR-LEIN I GYNGHORWYR

DEALL Y GYFRAITH

BETH SYDD AR GAEL?

Paratowyd y deunyddiau hyfforddiant ar-lein i'ch cynorthwyo chi i ddatblygu eich corff o wybodaeth fel Cynghorydd.

Mae'r deunyddiau'n trafod 7 maes penodol, ac mae 'Deall y Gyfraith' yn un ohonynt. Mae'r deunyddiau eraill yn ymwneud â Chynefino, y Cod Ymddygiad, y Cyngor yn Gyflogydd, Deall Cyllid Llywodraeth Leol, Iechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

RHOI CYCHWYN ARNI

Mae'r modiwl hwn yn trafod 'Deall y Gyfraith' ac mae'n mynd trwy'r elfennau allweddol canlynol:-

- ▶ Cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor
- ▶ Grymoedd a dyletswyddau statudol y Cyngor
- ▶ Agweddau allweddol o'r gyfraith sy'n effeithio Cyngorau megis cyfleoedd cyfartal a diogelu data
- ▶ Ffynonellau cyngor eraill

PWRPAS Y MODIWL

Yw eich cefnogi i:-

- ▶ Wybod beth all a beth na all Cyngor ei wneud yn gyfreithiol
- ▶ Gwybod am y camau allweddol y mae'n rhaid i Gyngor eu cymryd er mwyn i'w benderfyniadau a gweithredoedd fod yn gyfreithlon
- ▶ Deall sut all Cyngor fodloni gofynion cyfreithiol mewn meysydd allweddol fel rhyddid gwybodaeth a'r iaith Gymraeg
- ▶ Gwybod ble i droi i gael cyngor am y gyfraith


TROSOLWG

Bydd y modiwl hwn yn trafod gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a dyletswyddau cyfreithiol fydd yn effeithio ar eich Cyngor gan gynnwys:-


- ▶ Dyletswyddau a grymoedd statudol
- ▶ Grymoedd dirprwyo
- ▶ Mesurau, Biliau a Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol
- ▶ Deddfwriaeth ddiweddar berthnasol
- ▶ Y ddyletswydd i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- ▶ Deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth

DEDDFWRIAETH A GRYMOEDD

**Deddfau Seneddol/Deddfau'r Cynulliad
Deddfwriaeth Sylfaenol**



**Statudau
Deddfwriaeth Eilaidd**



Grymoedd i Weithredu

DEDDFWRIAETH SYLFAENOL A DEDDFWRIAETH EILAIDD

- ▶ Mae Deddfau Seneddol sy'n cael eu pasio yn San Steffan yn cael eu galw'n **deddfwriaeth sylfaenol** e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010
- ▶ Gan nad oes amser gan Dŷ'r Cyffredin i ystyried pob rheoliad mae weithiau'n pasio deddfwriaeth alluogol sy'n rhoi grymoedd i awdurdod gweithredol arall weithredu a gweinyddu gofynion y Deddfau e.e. Ym mis Hydref 2007, sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a rhoddwyd grymoedd iddo ar draws holl feysydd cyfraith cydraddoldeb o ran gorfodi cydraddoldeb a gall gyhoeddi codau ymarfer statudol – **Mae hon yn enghraifft o deddfwriaeth eilaidd.**
- ▶ Mae deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd yn arwain at 'rymoedd i weithredu.'

DEDDFU YNG NGHYMURU

- ▶ Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfau ar yr holl feysydd a ddatganolwyd iddo gan Senedd y DG e.e. Llywodraeth Leol ac Addysg/Hyfforddiant
- ▶ Arferai deddfau'r Cynulliad gael eu galw'n Fesurau (e.e. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) ond erbyn hyn gelwir deddfau arfaethedig yn Filiau a gelwir cyfreithiau wedi'u deddfu yn Ddeddfau
- ▶ Bydd Mesurau a wnaed rhwng 2007 a 2011 yn parhau i gael eu galw'n 'Fesurau Cynulliad' a byddant yn parhau i gael yr un effaith â chyfreithiau.

DYLETSWYDDAU A GRYSMOEDD


Cyfreithiau

Dyletswyddau Statudol

Grymoedd Statudol

Rhaid gwneud

Gall wneud



ESBONIO DYLETSWYDDAU A GRYSMOEDD

- ▶ Dyletswyddau statudol yw'r pethau hynny y mae'n rhaid i **Cyngor eu gwneud**
- ▶ Grymoedd statudol yw'r pethau hynny y **gall Cyngor eu gwneud**

Mae hwn yn wahaniaeth pwysig

- ▶ Bydd y rhan fwyaf o benderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud yn golygu y bydd rhaid iddo wario arian ac mae gan Gynghorau rymoedd codi trethi a benthyca er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
- ▶ Mae enghreifftiau o rymoedd statudol yn cynnwys y grym i ddiogelu a gofalu am gofebion rhyfel, darparu canolfannau cymunedol, gwyliau ac adloniant.

ULTRA VIRES

Mae'r grymoedd sydd gan Gyngor i weithredu yn penderfynu beth mae'n gallu ei wneud. Dywedir fod gweithredu'r tu allan i'r grymoedd hyn yn golygu fod Cyngor yn gweithredu'n 'ultra vires.' Os yw'r Cyngor yn gweithredu y tu hwnt i'w rymoedd gallai'r penderfyniadau a wna gael eu hystyried yn anghyfreithlon a gallai'r Cyngor fod yn atebol am ei weithredoedd.

Mae Ultra Vires yn un i'w osgoi!!!

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 137

Mae hwn yn rym arddewisol lle y gall Cyngor wario swm cyfyngedig o arian at ddibenion nad oes ganddynt unrhyw rym penodol ar eu cyfer. Yr amodau sy'n berthnasol i'w ddefnyddio yw:-

- ▶ Ni ellir ei ddefnyddio os oes grym arall yn berthnasol
- ▶ Gosodwyd terfyn blynyddol yn seiliedig ar swm a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru wedi'i luosi gan nifer yr etholwyr
- ▶ Rhaid i'r defnydd ohono fod o fudd i'r holl drigolion neu rai ohonynt neu'r ardal gyfan neu ran ohoni
- ▶ Rhaid i'r budd fod yn gymesur â'r gwariant
- ▶ Rhaid cadw cyfrifon ar wahân yn cofnodi'r defnydd ohono

Mae enghreifftiau o'r defnydd ohono yn cynnwys: cystadlaethau sbwriel, glanhau traethau, digwyddiad 'beating the bounds'.

GRYM LLESIANT

- ▶ Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 y grym i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i brif gynghorau
- ▶ Ehangodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y grym i gynghorau cymuned a thref
- ▶ Cyhoeddwyd canllawiau statudol ar ei ddefnydd gan Lywodraeth Cymru Gwe-ddolen:
<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/130328statutorypowerguideen.pdf>
- ▶ Gellir ei ddefnyddio'n rym cynnig cyntaf ond dylid nodi fod y swm y gellir ei wario mewn blwyddyn ariannol yn amodol ar gyfyngiadau A137 (cyfeiriwyd ato yn y sleid flaenorol)
- ▶ Ni ellir ei ddefnyddio os yw'r hyn a fwriedir yn cael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth arall

DIRPRWYO CYFRIFOLDEB

Gall Cyngor ddirprwyo ei rym i:-

- ▶ Bwyllgor
- ▶ Is-Bwyllgor
- ▶ Swyddog
- ▶ Cyngor arall neu Gyd Bwyllgor

**OND NID I GYNGHORYDD UNIGOL,
NID HYD YN OED Y CADEIRYDD**

DEDDFWRIAETH DDIWEDDAR

- ▶ Deddf Cydraddoldeb 2010
- ▶ Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- ▶ Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- ▶ Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013
- ▶ Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- ▶ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- ▶ Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- ▶ Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- ▶ Deddf Diogelu Data 2018 (GDPR)

Byddwn yn awr yn archwilio'r rhain yn fanylach

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

- ▶ Pasiwyd Deddf Cydraddoldeb newydd yn 2010
- ▶ ‘Dyletswydd Gyffredinol’ i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da o fewn cymunedau
- ▶ Rhaid i gynghorau ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i faterion cydraddoldeb
- ▶ Mae deddfwriaeth hefyd yn cynnwys cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd & chred

(Mae'r modiwl ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant yn trafod y Ddeddf yn fanylach)

MESUR YR IAITH GYMRAEG (CYMRU) 2011

- ▶ Cymeradwywyd ym mis Chwefror 2011 er mwyn moderneiddio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- ▶ Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch statws swyddogol yr iaith Gymraeg ac mae'n sefydlu Comisiynydd y Gymraeg
- ▶ Mae'n sefydlu 'Safonau Ymddygiad' i gymryd lle Cynlluniau Iaith Gymraeg

Y we ddolen ar gyfer gwefan y Comisiynydd yw:-

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/English/Pages/Home.aspx>

MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011

- ▶ Mae'n ceisio cryfhau strwythurau a gweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at ac yn ymgysylltu â phob sector o'r gymuned a wasanaethant.
- ▶ 179 o adrannau, a daeth y rhan fwyaf ohonynt yn weithredol yn 2011
- ▶ Mae'n cynnwys darpariaethau ynghylch: cyfarfodydd a phleidleisiau cymunedol, sefydlu, diddymu, grwpio a gwahanu cynghorau cymuned, cyfethol aelodau, aelodau ieuenctid cymunedol, grym llesiant, grantiau Llywodraeth Cymru, Cytundebau Siarter, cynllun Cyngor Ansawdd, taliadau i aelodau

DEDDF DEMOCRATIAETH LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2013

- ▶ Diwygiodd drefniadaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol
- ▶ Fe'i gwnaeth yn rhwyddach i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am Gyngorau Cymuned a Thref
- ▶ Trefnodd fod rhaid i fanylion cyswllt, aelodaeth, buddiannau a chofnod o'r trafodion fod ar gael trwy'r rhyngrwyd
- ▶ Dylai fod modd cysylltu â'r Clerc trwy e-bost

Y we-ddolen ar gyfer y canllawiau statudol yw:

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/150430-access-to-information-en.pdf>

Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

- ▶ Fe'u cyflwynwyd i gyfuno Rheoliadau 2005 gyda'r diwygiadau a wnaed ers hynny. Cyhoeddwyd canllawiau yn 2015
- ▶ Mae'n diffinio cynghorau cymuned yn 'Gyrff Perthnasol Llai' (yn amodol ar derfyn incwm/gwariant o £2.5m)
- ▶ Defnyddir trefn archwilio sicrwydd cyfyngedig ar eu cyfer
- ▶ Rhan 5: Rhaid i'r cyngor gadarnhau ei gyfrifon (dim dirprwyo), rhaid cadarnhau'r datganiad blynyddol erbyn y 30ain Mehefin a chyhoeddi'r cyfrifon erbyn y 30ain Medi

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

- ▶ Mae'n ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol
- ▶ Mae'n sefydlu saith nod Llesiant cenedlaethol
- ▶ Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- ▶ Deugain o ddangosyddion drafft cenedlaethol
- ▶ Sefydlwyd swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- ▶ Dyletswydd ar gynghorau lleol mwy (Dros £200,000)

Gwefan y Comisiynydd: <https://futuregenerations.wales/>

DEDDF GYNLLUNIO (CYMRU) 2015

- ▶ Mae'n creu fframwaith cyflawni modern ar gyfer cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio
- ▶ Mae'n cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- ▶ Mae'n gwella'r cydweithio rhwng awdurdodau
- ▶ Mae'n gwella ymgysylltu gyda chymunedau
- ▶ Mae'n moderneiddio gorfodaeth cynllunio

DEDDF AMGYLCHEDD (CYMRU) 2015

Mae'n creu polisi adnoddau cenedlaethol yn cynnwys camau i roi sylw i:-

- ▶ Newid hinsawdd
- ▶ Bagiau siopa
- ▶ Gwastraff
- ▶ Pysgodfeydd ar gyfer cregyn bysgod
- ▶ Trwyddedu morwrol
- ▶ Rheoli risg llifogydd
- ▶ Bio-Amrywiaeth (a dyletswydd newydd i gynghorau cymuned a thref)

DEDDF DIOGELU DATA 2018

Mae'n rheoleiddio sut ellir defnyddio gwybodaeth bersonol, a'r egwyddorion allweddol yw:

- ▶ Rhaid iddi gael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon, ac at ddibenion cyfyngedig
- ▶ Digonol, perthnasol ac heb fod yn ormodol
- ▶ Manwl-gywir
- ▶ Diogel ac ni ddylid ei chadw'n hirach nac sydd raid
- ▶ Rhaid ei phrosesu yn unol â'ch hawliau ac ni ddylid danfon gwybodaeth dramor
- ▶ Rhaid i reolwyr data roi gwybod i'r ICO a thalu tâl blynyddol

Efallai yr hoffech droi at wefan y Comisiynydd Gwybodaeth i gael mwy o wybodaeth:- <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/>

DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

- ▶ Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i bob math o wybodaeth
- ▶ Cynllun Cyhoeddi – rhaid i bob cyngor gael un
- ▶ Rhaid cadw cofnodion da
- ▶ Rhaid cydnabod cais am wybodaeth
- ▶ Rhaid ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith
- ▶ Rhaid egluro beth sydd ei angen
- ▶ Os yn ansicr dylid gofyn am gyngor, yn enwedig os allai ceisiadau fod yn rhai blinderus

Canllawiau gan y Comisiynydd Gwybodaeth : <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/>

IECHYD A DIOGELWCH

- ▶ Dyletswydd gyffredinol ar gyflogwyr i ofalu am iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio
- ▶ Corff mawr a phwysig o gyfraith
- ▶ Ymgorfforir egwyddor asesiadau risg yn y ffordd o weithio
- ▶ Mae'n cynnwys tanau, codi a chario, offer sgriniau arddangos, a straen, gweithio ar uchderau a sawl maes arall

Gwefan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch:- <http://www.hse.gov.uk/>

FFYNONELLAU GWYBODAETH

- ▶ Un Llais Cymru
- ▶ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- ▶ Comisiynydd Gwybodaeth
- ▶ Comisiynydd y Gymraeg
- ▶ Llywodraeth Cymru
- ▶ Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- ▶ Cyfoeth Naturiol Cymru

BETH AM BROFI EICH HUN

Ceisiwch ateb y canlynol :-

- 1) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dyletswydd statudol a grym statudol?
- 2) Beth yw ystyr y term 'ultra vires'?
- 3) Sut fydddech chi'n disgrifio Terfyn Ariannol Adran 137?
- 4) I bwy all Cyngor ddirprwyo?
- 5) Enwch dair enghraifft o ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n berthnasol i'r Cyngor.

BETH NESAF?

Gan fod gennych erbyn hyn ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gyfraith, awgrymir yn gryf y dylech ofyn i'ch Cyngor roi'r cyfle ichi fynd ar gwrs hyfforddiant ar y pwnc yma.

Mae'r hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru yn rhyngweithiol ac mae'n archwilio holl elfennau rôl gyfreithiol y Cyngor yn y manylder y byddech yn ei ddisgwyl gan eich corff cynrychioliadol. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi ymgysylltu â Chynghorwyr er mwyn eich galluogi i rannu profiadau a dysgu oddi wrth eich grŵp cymheiriaid.